

DRAFFT

# Cynllun



GWASANAETH  
IEUENCTID

CEREDIGION

YOUTH  
SERVICE

## 2024/25

**Dyddiad cyhoeddi:** Mawrth, 2021

**Dyddiad yr adolygiad cyntaf:** Medi, 2021

**Dyddiad yr ail adolygiad:** Ionawr, 2022

**Dyddiad y trydydd adolygiad:** Awst, 2024,

**Awduron:** Tîm Rheoli'r Gwasanaeth Ieuenctid

## Cynnwys

<b>1. Cyflwyniad</b>	<b>Tudalen 2</b>
<b>2. Diben</b>	<b>Tudalen 4</b>
<b>3. Gweledigaeth</b>	<b>Tudalen 5</b>
<b>4. Llwybrau cymorth</b>	<b>Tudalen 5</b>
<b>5. Cynnig y Gwaith Ieuentid</b>	<b>Tudalen 9</b>
<b>6. Cyfranogiad pobl ifanc a phartneriaid</b>	<b>Tudalen 11</b>
<b>7. Blaenoriaethau</b>	<b>Tudalen 13</b>
<b>8. Blaengynllunio</b>	<b>Tudalen 16</b>
<b>9. Atodiadau</b>	<b>Tudalen 16</b>

### **Cipolwg pum mlynedd**

Ers 2019, rydym ni wedi:

- Cefnogi dros 1000 o bobl ifanc mewn ysgolion a lleoliadau cymunedol
- Croesawi mwy na 1500 o bobl ifanc i'n clybiau ieuentid
- Trefnu mwy na 150 o deithiau a diwrnodau gweithgaredd
- Cefnogi 450 o bobl ifanc yn ôl i addysg, cyflogaeth a hyfforddiant
- Helpu mwy na 5000 o bobl ifanc i gymryd rhan mewn ymgyrchoedd blynyddol 'Rhoi Dy Farn'
- Gwreiddio dulliau adferol, gwella o drawma a hyfforddiant ymddygiad cadarnhaol ar draws y gwasanaeth a gwasanaethau partner
- Cefnogi mwy na 50 aelod o staff a phartneriaid i gyflawni cymwysterau gweithwyr cefnogi ieuentid a gweithwyr ieuentid lefel 2 a 3.
- Cefnogi 125 o bobl ifanc i ymuno â'r Cyngor Ieuentid gyda chynrychiolaeth o bob ysgol uwchradd, Uned Cyfeirio Disgyblion, Coleg Ceredigion, Llysgenhadon Cymunedol Aberystwyth, URDD, Hwb Ieuentid GOATS, Addysg Gartref o ddewis, Clwb Ieuentid Talybont a Gwasanaeth Ieuentid Ceredigion.
- Wedi cefnogi'r Aelod Seneddol Ieuentid y Deyrnas Unedig a etholwyd dros 10 mlynedd
- Cyflawni mwy na 150 o wahanol brosiectau targed sy'n cefnogi themâu penodol
- Cefnogi chwe sefydliad ieuentid gwirfoddol gyda chytundebau partneriaeth blynyddol a mynediad ehangach at adnoddau, offer, hyfforddiant a mentrau ar y cyd.

## 1. Cyflwyniad

Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, mae Cyngor Sir Ceredigion wedi trawsnewid y ffordd y gall unigolion, teuluoedd, cymunedau a gofalwyr dderbyn cymorth a chefnogaeth pan fydd ei angen arnynt. Gweledigaeth y model hwn yw sicrhau mynediad cadarnhaol at wasanaethau cyffredinol a rhai sydd wedi'u targedu fel y gall plant ac oedolion ddatblygu'r sgiliau a'r gwytnwch sydd eu hangen arnynt i fyw eu bywydau i'r eithaf a chyflawni eu hamcanion.

Mae hyn wedi ein galluogi i feithrin perthynas a chysylltiadau rhwng ysgolion a gwasanaethau eraill, gan geisio grymuso unigolion yn yr hyn sy'n bwysig iddynt gan weithio gydag asiantaethau partner i gryfhau annibyniaeth unigolion, er mwyn sicrhau diogelwch a hyrwyddo llesiant.

**Mae'r ddogfen hon wedi'i chynllunio i'ch galluogi i ddeall yn well y cyfleoedd ddylai fod ar gael i bobl ifanc a sut rydym yn anelu at ddarparu'r ddarpariaeth sydd ei angen.**

Ein nod ers sawl blwyddyn oedd cynnig cyfleoedd addysg anffurfiol ac anffurfiol i bobl ifanc 11-25 oed, sy'n addysgiadol, yn gyfranogol, yn rymusol, yn gynhwysol ac yn fynegiannol, mewn amgylchedd sy'n hygyrch, croesawgar a diogel. Rydym yn parchu treftadaeth ddwyieithog Ceredigion ac yn cynnig darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Rydym yn gweithio ar y cyd â gwasanaethau cymorth ieuenctid eraill i gefnogi pobl ifanc Ceredigion i gaffael yr hyn sy'n ddyledus iddynt ac i ddatblygu fel dinasyddion cyfrifol.

### Cyd-destun deddfwriaethol

Mae gwaith ieuenctid yn perthyn i Wasanaeth Cymorth Ieuenctid ehangach, y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu darparu ar gyfer pobl ifanc yn eu hardal yn unol â Deddf Dysgu a Medrau 2000. Mae [adrannau 123 i 129](#) yn amlinellu'r ddarpariaeth a'r cymorth i bobl ifanc 11 i 25 oed yng Nghymru ac yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddid i awdurdodau lleol yng Nghymru i ddarparu, sicrhau darpariaeth, ac ymgymryd â darpariaeth gwasanaethau cymorth ieuenctid ac i roi sylw i ganllawiau Gweinidogion Cymru ar y dyletswyddau hynny.

Hefyd, mae Deddf Addysg (Cymru) 2014 yn cynnwys pwerau cofrestru ymarferwyr addysg. Fel rhan o hyn, mae [Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg \(Categoriâu Cofrestru Ychwanegol\) \(Cymru\) 2023](#) yn nodi'r gofynion ar gyfer cofrestru'r gweithlu gwaith ieuenctid. Mae'n rhaid i weithwyr ieuenctid a gweithwyr cefnogi ieuenctid cymwys sy'n derbyn tâl gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg. Mae'r cymwysterau perthnasol wedi'u rhestru yn y Gorchymyn hwn.

### Pam fod angen gwasanaeth ieuenctid?

Yn ystod y pedair blynedd diwethaf rydym wedi gweld galw cynyddol am gymorth arbenigol ac ymyriadau ataliol. Mae'r atgyfeiriadau yn parhau i gynyddu gydag ystod o achosion o fregusrwydd ac angen am gymorth dwys.

Ar ôl gwrandao ar ystod eang o randdeiliaid gan gynnwys pobl ifanc, gwyddom y gall darparu cymorth cynnar liniaru'r angen am wasanaethau mwy arbenigol a gall osgoi sefyllfa o argyfwng. Mae pobl eisiau mynediad i'r gwasanaeth cywir ar yr adeg gywir ac i gael dewis a rheolaeth lle bynnag y bo modd p'un a yw hyn trwy hunangyfeirio, neu gan deulu, gofalwr neu'r gymuned.

Mae gwasanaethau ieuenctid yn y bôn yn ceisio ymgysylltu pobl ifanc wrth ddylunio a darparu gweithgareddau sy'n diwallu eu hanghenion a'u diddordebau, a ddylai fod ar gael yn rhwydd

DRAFFT

ac yn hygyrch yn eu cymunedau.


Mae'r Gwasanaeth Ieuentid yng Nghymru yn cyfeirio at y fframwaith cyflawni gwaith ieuentid a wneir yn bennaf gan awdurdodau lleol, sefydliadau ieuentid gwirfoddol cenedlaethol a lleol, gyda'r ddau sector yn aml yn cydweithio'n agos. Mae gwaith ieuentid yn cynnwys addysg a datblygiad cymdeithasol a phersonol, pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed ac fe'i cyflwynir mewn amrywiaeth o leoliadau gan gynnwys clybiau ieuentid, lleoliadau preswyl, canolfannau gwybodaeth, canolfannau cyngor a chwrsela, ar y strydoedd ac mewn gwahanol leoliadau cyhoeddus lle mae pobl ifanc yn cyfarfod a thrwy brosiectau arbennig testun-benodol ac ati ([Gwasanaeth Ieuentid - CLILC](#)).

Mae llawer o bobl ifanc wedi sôn am y diffyg hunaniaeth a'r ymdeimlad o berthyn maen nhw wedi'i deimlo ers y pandemig. Yn enwedig yr ymdeimlad o gysylltiad â gwasanaeth ieuentid, lle mae'r ffocws yn ddiweddar wedi bod fwy ar gefnogaeth ac atal wedi'i dargedu. Mae mynd yn ôl at ein gwreiddiau o ddarparu gwasanaeth ieuentid yn rhoi cyfle i ailgysylltu â phlant a phobl ifanc Ceredigion, gan eu grymuso trwy'r [dull Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol](#) i arwain a phenderfynu pa wasanaethau sy'n bwysig ac yn ddiddorol iddynt.

### Porth Cymorth Cynnar (PCC)

PCC yw'r porth sy'n darparu cymorth cynnar, sy'n darparu mynediad i wasanaethau llesiant cyffredinol a phenodol i blant ac oedolion. Mae Porth Cymorth Cynnar yn darparu cymorth, gwybodaeth, cyngor ac ymyrraeth gynnar integredig sydd wedi'i ffocysu.

Mae rôl Gwasanaeth Ieuentid Ceredigion o fewn y model integredig hwn yn aros yr un fath, gan weithio'n agos gyda'r gwasanaethau a'r prosesau presennol. Fodd bynnag, byddwn yn canolbwyntio ar ysgogi ymgysylltiad pobl ifanc drwy gydol y broses o ddarparu gwasanaethau, mewn lleoliadau cyffredinol a'r rhai sydd wedi'u targedu. Mae'r llun isod yn dangos sut mae gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd i gefnogi anghenion yr holl breswylwyr. Am fwy o wybodaeth am y model Gydol Oes a PCC cliciwch [yma](#).



O fis Medi 2024, byddwn yn cael ein hadnabod fel Gwasanaeth Ieuentid Ceredigion - ond bydd ein strwythurau, ein gweithlu a'n prosesau fel y ffurflenni atgyfeirio yn aros yr un fath.

## 2. Diben

Mae'r ddogfen hon yn gosod fframwaith ar gyfer cynllunio, cyflwyno a monitro darpariaeth Gwaith Ieuenctid yng Ngheredigion, ac mae'n gweithredu [ar sail hawliau](#). Bydd o ddiddordeb i gynulleidfa eang, gan gynnwys pobl ifanc, sefydliadau gwirfoddol, ysgolion, cyrff cyhoeddus a'r sefydliadau a'r gwasanaethau hynny sy'n gweithio i wella canlyniadau i bobl ifanc.

Mae deddfu ar gyfer fframwaith newydd ar gyfer gwasanaethau Ieuenctid yng Nghymru yn ymrwymiad Rhaglen Lywodraethu. Mae hyn yn mynd i'r afael ag argymhelliad a wnaed gan y Bwrdd Gwaith Ieuenctid dros dro yn ei [adroddiad terfynol](#), a oedd yn galw am weithredu gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r hyn yr oedd yn ei ystyried yn sail ddeddfwriaethol wan ar gyfer gwaith Ieuenctid.

Mae'r Rhaglen Lywodraethu 2021-26 yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i 'ddeddfu ar gyfer fframwaith newydd ar gyfer gwasanaethau Ieuenctid yng Nghymru'. Cyhoeddodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ym mis Rhagfyr 2023 mewn datganiad ysgrifenedig, y byddai cynigion gyda'r nod o gryfhau'r sail ddeddfwriaethol ar gyfer gwaith Ieuenctid yn canolbwyntio ar:

- drafftio a chyhoeddi cyfarwyddiadau newydd i ddisodli Cyfarwyddiadau 2002 a
- datblygu canllawiau statudol wedi'u diweddarau i ddisodli canllawiau 'Ymestyn Hawliau' 2002.

Felly, yn barod ar gyfer canllawiau diwygiedig posibl a gofynion statudol ar gyfer gwasanaethau Ieuenctid yng Nghymru, mae cyfle i ni yng Ngheredigion ddatblygu ein cynnig gwaith Ieuenctid a chymorth Ieuenctid ar gyfer y flwyddyn nesaf a chynllunio ar gyfer y tymor hir. Bydd gweithio'n agos gyda phobl ifanc a phartneriaid yn hanfodol i lwyddiant datblygu gwasanaethau rhagorol i bobl ifanc, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach.

Ein nod yw darparu darpariaeth ar gyfer, ac ategu ystod o strategaethau a fframweithiau gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- [Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru](#)
- [Y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid](#)
- [Fframwaith NYTH](#)
- [Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru](#)
- [Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion](#)
- [Cymraeg 2050: Cynllun gweithredu strategaeth y Gymraeg](#)
- [Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol](#)
- [Strategaeth Ddigidol Cymru](#)
- [Cwricwlwm i Gymru](#)
- Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Atodiad B

Mae Gwaith Ieuenctid yng Nghymru wedi'i ymgorffori ar ddull pum piler y sector sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer dysgu sef: **grymuso, addysgiadol, mynegiannol, cyfranogol a chynhwysol**. Mae [Egwyddorion a Dibenion Gwaith Ieuenctid yng Nghymru](#) yn ddogfen sydd wedi'i hysgrifennu ar gyfer pobl ifanc, y rhai sydd eisoes yn ymwneud â sefydliadau gwaith Ieuenctid yn ogystal â'r rhai sy'n dymuno darganfod mwy am y mathau o brofiad y gall sefydliadau gwaith Ieuenctid eu darparu.

### 3. Gweledigaeth

*Mae'r gwasanaeth ieuentid yn wasanaeth grymus sydd yn ymrwymo i gefnogi datblygiad personol, cymdeithasol ac addysgol pobl ifanc trwy gefnogaeth arbenigol a darpariaeth mynediad agored, i annog pob person ifanc i gyrraedd eu llawn potensial ac i wneud dewisiadau gwybodus i fyw bywydau ystyrlon.*

Rydyn ni eisiau dysgu mwy gan bobl ifanc am eu hanghenion a'u dymuniadau. Trwy gydol y flwyddyn nesaf, byddwn yn blaenoriaethu ymgysylltiad parhaus â phobl ifanc a phartneriaid i er mwyn adnewyddu a moderneiddio ein gweledigaeth bresennol fel ei fod yn atseinio ag anghenion a dymuniadau cyfredol ein pobl ifanc. Byddwn yn helpu pobl ifanc i adeiladu ar y sylfeini a osodwyd gan y Strategaeth Gwaith Ieuentid Cenedlaethol drwy ganolbwyntio ar nodau allweddol i wella'r ddarpariaeth gwaith ieuentid yng Nghymru, lle:

1. *Mae pobl ifanc yn ffynnu*
2. *Mae gwaith ieuentid yn hygyrch ac yn gynhwysol*
3. *Mae gweithwyr ieuentid proffesiynol sy'n wirfoddol neu'n gweithio am dâl yn cael eu cefnogi i wella eu hymarfer drwy gydol eu gyrfa*
4. *Mae gwaith ieuentid yn cael ei werthfawrogi a'i ddeall*
5. *Gellir cyflawni model cynaliadwy ar gyfer gwaith ieuentid.*

### 4. Llwybrau Cymorth

Y tîm Llwybrau Cymorth yw'r lle cychwyn ar gyfer pob atgyfeiriad i'r Porth Cymorth Cynnar a'i wasanaethau p'un a ydynt yn cael eu derbyn drwy Clic neu os ydynt wedi'u brysennu gan y Porth Gofal. Mae'r tîm wedi'i leoli o fewn y gwasanaeth ieuentid ac mae'n darparu cefnogaeth uniongyrchol i bob gwasanaeth ym Mhorth Cymorth Cynnar gan nodi, cysylltu, monitro a gwerthuso ymyriadau neu gymorth.

Mae'r tîm yn cefnogi'r protocolau 'camu i fyny a chamu i lawr' drwy weithio gyda Porth Cynnal a Phorth Gofal i sicrhau cefnogaeth amserol ac effeithiol i blant/pobl ifanc, oedolion ac i deuluoedd/gofalwyr. Mae'r tîm hefyd yn helpu i oruchwylio data a phrosesau sicrhau ansawdd gwasanaethau Porth Cymorth Cynnar, gan sicrhau y gallwn ddiwallu anghenion preswylwyr mor effeithlon ac effeithiol â phosibl.

Er bod gennym ddull safonol o brosesu atgyfeiriadau, dylid nodi bod pob person ifanc yn cael ei ystyried mewn ffordd gyfannol a fesul un.

#### **Y CDAP ar gyfer llwybrau effeithiol:**

**Cyfranogiad** – sicrhau bod gan bobl ifanc lais a chyfle i gynllunio, monitro ac adolygu'r gwasanaethau sydd ar gael

**Dilyniant** – sicrhau bod gan bobl ifanc ymgysylltiad cadarn a chefnogaeth gydlynol er mwyn nodi, datblygu a chyflawni eu nodau a'u hamcanion eu hunain

**Atal** – sicrhau bod pobl ifanc yn derbyn darpariaeth ragweithiol a chyfannol sy'n eu cefnogi i gyflawni canlyniadau cadarnhaol a'u dargyfeirio o risg neu niwed

**Partneriaethau** – sicrhau bod gan bobl ifanc rwydweithiau a sefydliadau cryf sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo eu hanghenion a'u dymuniadau ar draws y meysydd gwasanaeth.



## Sicrwydd Ansawdd

Mae angen i ni sicrhau ein bod yn dryloyw, yn agored ac yn onest gyda phobl ifanc a'u teuluoedd pan fyddant neu os ydynt yn dewis ymgysylltu â'n gwasanaethau. Mae hyn yn golygu, pan fyddwn yn derbyn atgyfeiriad neu gais am gymorth, neu pan fydd plentyn, person ifanc neu riant yn cysylltu â ni, ein bod yn cyfleu ein bwriad, ac yn cynnig cymorth mewn modd clir ac yn onest, gan egluro pam o bosib eu bod wedi'u cyfeirio atom ni, yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud â'u data personol, a'u cynnwys wrth gynllunio'r cynnig cymorth gan gynnwys creu disgwyliaidau y cytunwyd arnynt, nodau a chanlyniadau.

Mae gennym ddyletswydd statudol i adrodd ar ein gwaith i'r Awdurdod Lleol, Partneriaethau Rhanbarthol, Llywodraeth Cymru a chyrff cyllid/llywodraethu eraill. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth rifiadol fel 'Canlyniadau Caled' h.y. nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn gwasanaethau, nifer y deilliannau dysgu achrededig ac yn y blaen. Mae'r rhain fel arfer yn cael eu diffinio fel canlyniadau caled ac yn aml gallant gynnwys manylion manwl o ran mesur llwyddiannau yn erbyn targedau penodol fel presenoldeb, gwaharddiadau ac ati.

Fodd bynnag, rydym hefyd am sicrhau ein bod yn mesur ar sail gwybodaeth fwy ansoddol fel meddyliau, teimladau a thwf personol. Mae'r rhain fel arfer yn cael eu diffinio fel 'Canlyniadau Meddal' a gallant roi manylion cyfoethog iawn am siwrnai'r unigolyn a'r manteision a ddaw yn sgil (a'r cyfleoedd a gollwyd drwy beidio) o'u mesur.

Canlyniadau Caled	Canlyniadau Meddal
Deilliannau caled yw'r canlyniadau amlwg y gellir eu diffinio'n glir ac yn feintiol sy'n dangos y cynnydd y mae person ifanc wedi'i wneud tuag at gyflawni canlyniadau dymunol trwy gymryd rhan mewn prosiect neu drwy ymgysylltu â chymorth. Fel arfer, maent yn cynnwys ennill cymhwyster, dod o hyd i waith, neu sicrhau lle ar gwrs. Mae canlyniadau caled fel arfer yn syml i'w nodi a'u mesur.	Gall canlyniadau meddal gynnwys cyflawniadau'n ymwneud â sgiliau rhyngpersonol, er enghraifft hunan-barch, hyder, mecanweithiau ymdopi a sgiliau cymdeithasol. Gallent hefyd ddangos datblygiad o ran rheoli emosiynau, ymgysylltu ag addysg neu deulu, delwedd o'r corff, rheoli amser eu hunain a bod yn brydlon.

## Mesur effaith

Yn y cyd-destun hwn, mae 'pellter a deithiwyd' yn derm a ddefnyddiwn sy'n cyfeirio at y cynnydd y mae pobl ifanc yn ei wneud o ran cyflawni canlyniadau meddal sy'n arwain at ganlyniadau caled parhaus eraill, o ganlyniad i gymryd rhan mewn prosiect ac ymgysylltu â chymorth, yn erbyn llinell sylfaen gychwynnol a osodwyd ar ddechrau'r cyfranogiad. Wrth fesur y pellter a deithiwyd, bydd angen asesu plentyn neu berson ifanc ar ddau achlysur gwahanol o leiaf (ac yn ddelfrydol yn fwy aml na hyn) er mwyn deall beth sydd wedi newid ac i gael syniad o'r effaith a welwyd.

Cynlluniwyd a datblygwyd templedi ymarferol i greu ystod o declynnau dewisol i ymarferwyr ac ysgolion, yn dibynnol ar ddewis neu arddull dysgu pob plentyn neu berson ifanc. Mae'r teclynnau mesur hyn yn ymgorffori'r dangosyddion targed craidd a fydd yn rhan o'n hadroddiad(au) diwedd blwyddyn. Maent yn linell sylfaen ar gyfer pob teclyn. Gall Gweithwyr

DRAFFT

Ieuenctid ychwanegu dangosyddion eraill i'r templedi hyn, yn dibynnol ar y math o angen neu meysydd ffocws. Bydd rhain yn cysylltu'r teclynnau pellter a deithiwyd at ei gilydd a byddant yn nodi'r gefnogaeth sydd ei hangen o un ymgysylltiad i'r llall. Yna caiff cynlluniau dilyniant personol gyda meysydd ffocws eu cwblhau gyda'r gweithiwr ieuenctid a nodwyd er mwyn amlinellu'r nodau CAMPUS y dylid eu hadolygu bob 12 wythnos fan lleiaf.

**Gweler atodiad ar gyfer astudiaethau achos ac enghreifftiau o ymarfer da**




## 5. Y Cynnig Gwaith Ieuenctid

Dylai pob person ifanc yng Ngheredigion 11-25 oed gael mynediad rhwydd drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, i ddarpariaeth gwaith ieuenctid sylfaenol, yn seiliedig ar eu hanghenion a'u dymuniadau. Mae'r llun isod yn dangos sut mae'n pedwar maes cwricwlwm allweddol a'n dull gwaith ieuenctid yn gosod sail i'r Pum Piler gwaith ieuenctid a sut maent yn cyfrannu i'r nodau llesiant cenedlaethol.

# Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion

Y Cynnig Gwaith Ieuenctid



Cymorth cynnar a chefnogaeth ar ffurf grŵp	Darpariaeth gyffredinol	Ymyriadau wedi'u targedu a'u harwain gan anghenion	Cyfranogiad, hawliau a gwybodaeth
<ul style="list-style-type: none"> <li>○ Cyrsiau llesiant emosiynol, cymdeithasol, meddyliol a chorfforol</li> <li>○ Prosiectau datblygiad personol a chymdeithasol</li> <li>○ Dysgu achrededig</li> <li>○ Gosod nodau</li> <li>○ Ymgyrchoedd, blaengaredd a mentrau thematig</li> <li>○ Darpariaeth ar-lein</li> <li>○ Sgiliau bywyd</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>○ Clybiau ieuentid a rhaglenni ar ôl ysgol</li> <li>○ Rhaglenni gyda'r nos, penwythnos a gwyliau ysgol</li> <li>○ Chwaraeon ac antur awyr agored</li> <li>○ Prosiectau iechyd a llesiant</li> <li>○ Gweithgareddau galw heibio ac ar hap</li> <li>○ Ymweliadau dydd a phrofiadau preswyl</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>○ Gweithgareddau allgymorth, datgysylltiol a symudol</li> <li>○ Prosiectau thematig wedi'u strwythuro</li> <li>○ Darpariaethau ataliol a dargyfeiriol</li> <li>○ Lleihau niwed/codi ymwybyddiaeth</li> <li>○ Rhaglenni anogaeth a chyfoethogi</li> <li>○ Rhaglenni celf a chrefft</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>○ ABGI / gweithdai thematig ac ymgyrchoedd</li> <li>○ Ymwybyddiaeth CCUHP</li> <li>○ Cyngor Ieuentid a fforymau ieuentid</li> <li>○ Gwirfoddoli</li> <li>○ Dinasyddiaeth</li> <li>○ Digwyddiadau dathlu</li> <li>○ Ymgysylltiad digidol</li> <li>○ Cyfnewidfeydd ieuentid</li> <li>○ Digwyddiadau a Diwrnodau Hwyl</li> </ul>
<p><b>ADDYSGOL</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Cefnogaeth a darpariaeth gyffredinol wedi'i Dargedu sy'n cael ei ffurfio drwy ymgysylltu â phobl ifanc gyda'r nod o wella eu llesiant emosiynol, meddyliol, corfforol a chymdeithasol unigol, a grŵp trwy brofiadau dysgu anffurfiol a rhai sydd wedi'u strwythuro.</li> </ul> <p><b>CYNNWYS</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Lleoliadau, safleoedd a gweithgareddau diogel, gan gynnwys lleoliadau digidol, lle gall pob person ifanc waeth beth fo'u cefndir neu eu cyd-destun personol gael hwyl, eu croesawi, eu gwerthfawrogi, gael perthnasoedd ystyrlon ag oedolion dibynadwy a all eu cysylltu o'u lleoliad yn eu cymunedau i wasanaethau a ddylai fod ar gael yn hawdd a'u helpu nhw a chyfoedion i deimlo eu bod yn rhan o'u cymuned.</li> </ul> <p><b>CYFRANOGOL</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Strwythurau sy'n hyrwyddo hawliau pobl ifanc ac yn eu galluogi i gael mynediad at ystod o wybodaeth a gweithgareddau yn seiliedig ar yr hyn y maent ei angen neu'n ei ddymuno, ac i gyfrannu wrth wneud penderfyniadau ar faterion sy'n effeithio arnynt gan gynnwys adolygu gwasanaethau ac asesu safonau.</li> </ul> <p><b>GRYMUSO</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Llwybrau at brofiad dinasyddiaeth, dysgu rhyngddiwyllynnol, symudedd/cyfnewidfeydd, a chyfleoedd ieithyddol sy'n cefnogi pob person ifanc i ddysgu a dathlu cyflawniadau ac amrywiaeth, ym mhob ffurf a datblygu ymdeimlad cryf o hunaniaeth gyda'u cymuned, eu gwlad a'r byd.</li> </ul> <p><b>MYNEGIANNOL</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Cyfleoedd i ennill profiad a datblygu drwy leoliadau addysgol anffurfiol eang a mynediad at gwricwlwm gwaith ieuentid, yn seiliedig ar Egyddorion a Dibenion Gwaith Ieuentid.</li> </ul>			

Mae'r adran hon yn amlinellu'n disgwyliad o'r cynnig gwaith ieuencid y dylai pobl ifanc gael cyfle am fynediad yn eu hardaloedd lleol. Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr; mae'r Gwasanaeth Ieuencid wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaethau ac annog arloesedd gyda'r adnoddau sydd gennym. Mae'r adran ganlynol yn canolbwyntio ar gyfranogiad ac ymgysylltiad pobl ifanc wrth lunio darpariaeth a gwasanaethau.

**Gweler atodiad ar gyfer astudiaethau achos ac enghreifftiau o ymarfer da**

## 6. Cyfranogiad gan bobl ifanc a phartneriaid



Nod Gwaith Ieuencid yw galluogi pobl ifanc i ddatblygu'n gyfannol, gan weithio gyda nhw i hwyluso eu datblygiad personol, cymdeithasol ac addysgol, i'w galluogi i ddatblygu eu llais, dylanwad a lle mewn cymdeithas a chyrraedd eu llawn potensial. [Egwyddorion a Dibenion Gwaith Ieuencid yng Nghymru](#) yn amlinellu rôl y gwasanaeth ieuencid i hyrwyddo ymgysylltiad gwirfoddol pobl ifanc fel partneriaid grymus.

Mae'n dechrau ar ba bynnag adeg y mae pobl ifanc yn eu bywydau, yn cydnabod ac yn ceisio datblygu a gwireddu eu potensial, ac mae'n ymrwymedig i gydraddoldeb a chynhwysiant. Mae Gwaith Ieuencid yn gweithredu mewn ffordd sy'n seiliedig ar hawliau, tra hefyd yn cynorthwyo pobl ifanc i fynd i'r afael â chyfrifoldebau a gofynion a osodir arnynt (Strategaeth Gwaith Ieuencid i Gymru). Mae'r Gwasanaeth Ieuencid yn gyfrifol am arwain ar hawliau a chyfranogiad pobl ifanc a chyflawni Gwaith Ieuencid o ansawdd uchel ar draws ysgolion uwchradd a lleoliadau cymunedol Ceredigion.

### Hawliau a Chyfranogiad Pobl Ifanc

Ymgorfforwyd 'Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru)' mewn deddfwriaeth ym mis Mai 2012 ac mae hyn yn adeiladu ar ddull gweithredu Llywodraeth Cymru sy'n seiliedig ar hawliau plant. Mae'r gyfraith hon yn sicrhau bod Ysgrifenyddion a Gweinidogion Cabinet Cymru bob amser yn ystyried hawliau plant fel y nodir yn y CCUHP.

Mae'r [Dull gweithredu seiliedig ar hawliau dynol plant o ymddrin ag addysg yng Nghymru](#) yn fframwaith effeithiol yr ydym yn ei ddefnyddio er mwyn cyflawni ein dyletswyddau statudol mewn perthynas â Chyfarwyddiadau'r Gwasanaethau Cymorth Ieuencid ac sy'n cyflawni nodau Strategaeth Gwaith Ieuencid Cymru. Mae'r gwasanaeth Gwaith Ieuencid yng Ngheredigion wedi ymrwymo i weithredu mewn dull cyfranogol sy'n annog ac yn galluogi pobl ifanc i rannu cyfrifoldeb a dod yn bartneriaid cyfartal yn y prosesau dysgu a gwneud penderfyniadau.

Mae'r dull hwn yn cefnogi pobl ifanc i ymgysylltu â materion personol, cymdeithasol a gwleidyddol sy'n effeithio ar eu bywydau. Rydym yn cydlynu ac yn arwain amrywiaeth o fforymau a sianeli dan arweiniad ieuencid, sy'n rhoi llais a llwyfan i bobl ifanc ddylanwadu ar



Mae'r dull hwn yn cefnogi pobl ifanc i ymgysylltu â materion personol, cymdeithasol a gwleidyddol sy'n effeithio ar eu bywydau. Rydym yn cydlynu ac yn arwain amrywiaeth o fforymau a sianeli dan arweiniad ieuencid, sy'n rhoi llais a llwyfan i bobl ifanc ddylanwadu ar

gyfleoedd cadarnhaol yn eu cymunedau a'u sir gyfan. Rydym yn darparu hyfforddiant ac ymwybyddiaeth i eraill i sicrhau bod llais plant a phobl ifanc yn cael ei werthfawrogi ar draws y Cyngor. Mae'r darpariaethau hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Cyngor Ieuenctid Ceredigion
- Fforwm Ieuenctid Ceredigion (Panel Dewis)
- Grantiau dan arweiniad ieuenctid
- Cynllun Llysgenhadon Cymunedol
- Senedd Ieuenctid y DU
- E-ddysgu a Hyfforddiant UNCRC
- Partneriaeth Senedd Ieuenctid Cymru
- Ymgyrch Rhoi dy Farn
- Digwyddiadau Pawb a'i Farn
- Is-grwpiau testunol

### **Meysydd allweddol o'n hymgysylltiad â phobl ifanc a'u cymunedau**

Fel gwasanaeth, mae llais plant a phobl ifanc yn ganolog i'n model cynllunio a darparu. Roedd y cyfleoedd canlynol ar gael i bobl ifanc er mwyn cefnogi datblygiad asesu'r anghenion lleol ac adnabod elfennau allweddol a blaenoriaethau:

- Arolwg boddhad blynyddol; Cafwyd 100 o ymatebion llynedd gydag 89% yn nodi gwelliant o ran eu llesiant, eu hyder a'u hunan-barch ac 82% yn nodi bod y cyfleoedd a ddarperir gan y gwasanaeth ieuenctid yn rhagorol neu'n dda iawn.
- Ymweliadau fesul tymor gan reolwyr ac uwch weithwyr ieuenctid â'r lleoliadau, gan gynnwys ysgolion a chlybiau ieuenctid
- Gwerthusiadau prosiect
- Sesiynau ymgysylltu wedi'u hwyluso mewn ysgolion a lleoliadau cymunedol
- Cynnwys y cyfryngau cymdeithasol
- Adborth arolygiadau fel ymweliadau Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru
- Ymgyrch Flynyddol 'Rhoi dy farn' Cyngor Ieuenctid Ceredigion
- Ymrwymiad i'r Marc Ansawdd ar gyfer gwaith ieuenctid a'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru

Drwy ymgysylltu â phobl ifanc, rydym wedi dod i wybod am fanteision eu profiadau mewn ystod o ddarpariaeth gwasanaeth ieuenctid sydd wedi darparu'r canlynol iddynt:

- manau diogel ac oedolion dibynadwy,
- cyfleoedd i fagu hyder, bri, hunaniaeth, hunan-barch a pharch at eraill;
- dysgu ffyrdd newydd o ddatblygu sgiliau a galluoedd newydd,
- cyfle i fod yn greadigol ac yn fynegiannol,
- ffyrdd o gynnal neu weithio tuag at iechyd meddwl cadarnhaol;
- ffyrdd o ddatblygu gwell dealltwriaeth o berthnasoedd cymdeithasol sy'n hyrwyddo cynhwysiant ac amrywiaeth,
- cyfle i gynyddu eu cyfranogiad yn y broses o wneud penderfyniadau ac am hwyl a chwarae.

**Gweler atodiad ar gyfer astudiaethau achos ac enghreifftiau o ymarfer da**

## 7. Blaenoriaethau

Trwy ein hymgysylltiad â phobl ifanc a phartneriaid, mae'r meysydd blaenoriaeth canlynol wedi'u nodi ynghyd â thasgau a all ein cynorthwyo i ddatblygu ein cynnig gwaith ieuencid i bobl ifanc:

Blaenoriaeth 1	Darparu gwaith ieuencid hygyrch, cytbwys a chynhwysol sydd wedi'i dargedu
<b>Ein nodau:</b>	
1.1	Datblygu darpariaeth ar ôl ysgol, gyda'r nos, penwythnos a gwyliau ym mhob canolfan ieuencid a'u cymunedau; canolbwyntio ar anghenion lleol gan gynnwys darpariaeth Gymraeg, gwaith ieuencid digidol a chydaddoldeb ac amrywiaeth.
1.2	Gwella'r dysgu achrededig a'r cwricwlwm ar gyfer pobl ifanc 16-24 oed mewn ysgolion a lleoliadau cymunedol; canolbwyntio ar ddatblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol sy'n cefnogi pobl ifanc i fod yn barod ar gyfer addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth.
1.3	Datblygu darpariaeth gyfannol wedi'i thargedu yn seiliedig ar asesiadau o anghenion a dymuniadau pobl ifanc; sy'n gallu cefnogi pobl ifanc i wneud dewisiadau gwybodus, cyflawni canlyniadau gwell, a'u dargyfeirio o risg neu niwed.
1.4	Cryfhau a gwella darpariaeth allgymorth, symudol ac ar stryd, gan weithio mewn partneriaeth i nodi, cynllunio, cyflwyno, monitro ac adolygu effaith y ddarpariaeth ar bobl ifanc a'u cymunedau.
1.5	Gwella cyfleoedd dysgu preswyl, gan gynnwys cyfnewidfeydd ieuencid rhyngwladol fel rhan o'r cynnig gwasanaeth ieuencid
<b>Ein hamcanion (tasgau):</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>○ Parhau i ddarparu cynnig gwaith ieuencid helaeth i bobl ifanc mewn lleoliadau sydd wedi'u targedu ac yn gyffredinol</li> <li>○ Gweithiwr ieuencid a rhaglen weithgareddau wedi'u dynodi i bob ysgol uwchradd a'r cymunedau cyfagos</li> <li>○ Cymorth ôl-16 i bobl ifanc sy'n chwilio, neu'n wynebu rhwystrau parhau eu haddysg, hyfforddiant neu gyflogaeth</li> <li>○ Cynnig clwb ieuencid yn Aberystwyth, Aberaeron ac Aberteifi - o leiaf un noson yr wythnos</li> <li>○ Cynnig ieuencid symudol, allgymorth a di-gyswllt – i gyrraedd ardaloedd gwledig ac ardaloedd o angen a/neu risg h.y. ymddygiad gwrthgymdeithasol</li> <li>○ Cefnogaeth ar gyfer cyfleoedd gwirfoddoli, profiad gwaith a dinasyddiaeth</li> <li>○ Gweithdai datblygiad personol a chymdeithasol sy'n canolbwyntio ar lesiant, sgiliau bywyd a meysydd thematig eraill yn seiliedig ar anghenion a dymuniad</li> <li>○ Darpariaeth cwricwlwm Cymraeg a diwylliannol i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Gymraeg ac amrywiaeth</li> <li>○ Darparu cyfarfodydd cyngor ieuencid tymhorol</li> <li>○ Cefnogi pobl ifanc sy'n wynebu rhwystrau ymgysylltu er enghraifft cymorth trafndiaeth, dod o hyd i grantiau a gwasanaethau digidol</li> <li>○ Adeiladu ar drefniant cydweithio 2024-25 ac ail-greu'r panel gwneud penderfyniadau a gynrychiolir gan y Gwasanaeth Ieuencid, Menter Iaith, Swyddog Polisi'r Gymraeg a CAVO. Estyn gwahoddiad i gynrychiolydd CCGIG.</li> </ul>	

<b>Blaenoriaeth 2</b>	<b>Arwain ar ymgysylltu â phartneriaid i fynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth, ymateb i anghenion sy'n dod i'r amlwg, nodi cyfleoedd i ychwanegu gwerth i'r ddarpariaeth bresennol a sicrhau bod pobl ifanc yn elwa o wasanaethau sydd wedi'u cysylltu.</b>
<b>Ein nodau:</b>	
<b>2.1</b>	Cyfrannu at weledigaeth, darpariaeth ac adolygiad Porth Cymorth Cynnar o wasanaethau ymyrryd ac atal cynnar sy'n cefnogi plant, pobl ifanc ac oedolion
<b>2.2</b>	Darparu gwybodaeth am drawma, sy'n cefnogi profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac yn gosod dulliau adferol o gefnogi pobl ifanc, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach yn y Gymraeg a'r Saesneg
<b>2.3</b>	Cyflwyno darpariaeth ragweithiol a chydweithredol sy'n ceisio dargyfeirio pobl ifanc o'r system cyfiawnder troseddol ac sy'n gofyn am ymyriadau iechyd a gofal cymdeithasol arbenigol.
<b>2.4</b>	Datblygu ymgysylltiad rheolaidd â phobl ifanc a phartneriaid mewn ffordd effeithlon ac ystyrlon, gan sicrhau bod pobl ifanc waeth beth fo'u cefndir, eu gallu neu unrhyw amgylchiadau personol, yn gallu cael eu clywed mewn amgylchedd hygyrch, gan ganolbwyntio'n benodol ar grwpiau heb gynrychiolaeth dda.
<b>2.5</b>	Datblygu dull hawliau dynol plant ym mhob agwedd ar ddarparu gwasanaethau, gan sicrhau bod trefniadau clir ar waith i ddangos sut mae'n galluogi pobl ifanc i ymarfer eu hawliau fel y nodir yn y <a href="#">Dull gweithredu seiliedig ar hawliau dynol plant o ymdrin ag addysg yng Nghymru</a> .
<b>Ein hamcanion (Tasgau):</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>○ Parhau i dyfu a datblygu'r cyngor ieuentid</li> <li>○ Cydlynu'r panel fforwm pobl ifanc sy'n goruchwyllo darparu gwasanaethau, cynllun bwrsariaeth ieuentid a grant dan arweiniad ieuentid a phrosiectau thematig eraill sy'n cael eu gyrru gan bobl ifanc</li> <li>○ Parhau i weithio gydag ysgolion, y gwasanaeth cynhwysiant a phartneriaid yn y sector gwirfoddol i ddarparu cefnogaeth ac ymyrraeth gydlynol sy'n canolbwyntio ar lesiant disgyblion, gwynwch a datblygiad personol e.e. ABCh, darpariaethau strwythuredig megis cymorth pontio, cyrhaeddiad addysgol</li> <li>○ Parhau i weithio ar y cyd â Heddlu Dyfed Powys a rhanddeiliaid allweddol y trydydd sector a'r sector gwirfoddol i hyrwyddo ymgysylltu cymunedol a thargedu ardaloedd bregus y gwyr amdanynt h.y. camddefnyddio sylweddau, ecsbloetio, llinellau cyffuriau ac ati.</li> <li>○ Gweithio ar y cyd â Ceredigion Actif, Chwaraeon Cymru, Hyfforddiant Ceredigion a phartneriaid allweddol eraill i ddarparu cyfleoedd ar gyfer prosiectau, gweithgareddau, profiadau blasu a gweithdai sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo llesiant emosiynol, meddyliol a chorfforol cadarnhaol.</li> <li>○ Trefnu diwrnodau prosiect dan arweiniad ieuentid mewn clybiau ieuentid a lleoliadau cymunedol sy'n canolbwyntio ar chwaraeon ac ymarfer corff er mwyn hyrwyddo llesiant cadarnhaol a datblygiad personol a chymdeithasol</li> <li>○ Datblygu cefnogaeth wythnosol ar sail thema i bobl ifanc sy'n wynebu rhwystrau llesiant emosiynol a meddyliol y gwyr amdanynt i gael mynediad at addysg, cyflogaeth a/neu hyfforddiant</li> <li>○ Parhau i ddatblygu'r Panel Cymorth a Chefnogaeth Cynnar (PCC) sy'n goruchwyllo pob person ifanc sydd mewn perygl o waethygu at wasanaethau arbenigol. Gall y panel hefyd dderbyn achosion camu i lawr ar gyfer darpariaeth atal a dargyfeirio</li> <li>○ Parhau i ddefnyddio system <i>Childview</i> i oruchwyllo'r holl lwybrau atgyfeirio i'r gwasanaeth, gan ymgorffori swyddogaethau sgrinio a gweithwyr arweiniol</li> <li>○ Integreiddio Proffilio Asesu Bregusrwydd ar draws gwasanaethau cymorth i gynnwys dangosyddion digartrefedd er mwyn sicrhau bod cefnogaeth ac ymyrraeth yn cael eu cydlynu.</li> <li>○ Parhau i gefnogi mudiadau ieuentid gwirfoddol a gwasanaethau tai i gefnogi pobl ifanc sydd mewn perygl o fod angen gofal hirdymor, cymorth tai, a sicrhau bod gweithgareddau ymyrraeth gynnar ac atal yn cael eu cydgysylltu'n effeithiol</li> <li>○ Diweddarau canllawiau a phhecynnau cais yn unol â hynny a hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael ymhlith partneriaid trydydd sector newydd a phresennol.</li> </ul>	



**Blaenoriaeth 3 Darparu llwybrau gwybodaeth, arweiniad a chymorth effeithlon ac effeithiol, i gynorthwyo pobl ifanc i ymarfer eu hawliau, i fod yn fwy annibynnol a gweithgar yn eu cymunedau.**

**Ein nodau:**

<b>3.1</b>	Hyrwyddo a hwyluso cyfleoedd plant a phobl ifanc i gymryd rhan a chyfranogi mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt
<b>3.2</b>	codi ymwybyddiaeth o'r llwybrau hyn fel y gall pobl ifanc fanteisio ar y cyfleoedd yn unol â'u hawliau.
<b>3.3</b>	sut y gall technoleg ddigidol gyfoethogi'r cynnig gwaith ieuencid tra'n ystyried anghydraddoldebau mynediad digidol a sut y gellir lliniaru rhwystrau o'r fath.
<b>3.4</b>	ystyried proffil ieithyddol y boblogaeth yn ogystal ag anghenion a diddordebau pobl ifanc mewn perthynas â darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.
<b>3.5</b>	Adolygu a datblygu darpariaeth a gwasanaethau yn dilyn argymhellion ar yr <a href="#">Adolygiad o Weithwyr Arweiniol Ymgysylltiad a Chynnudd Ieuencid</a> Estyn (llyw.Cymru)

**Ein hamcanion (Tasgau):**

- Gweithgareddau Dathlu i arddangos cyflawniadau a chodi ymwybyddiaeth o fentrau
- Gweithio tuag at sefydlu proses hunanasesu gyda'r nod o wneud cais am Farc Ansawdd Efydd sydd wedi dod i ben (ac yna'r Arian / Aur yn y blynyddoedd sydd i ddod)
- Cefnogi Gweithwyr Ieuencid a phartneriaid i gael cyfle i fod yn 'aseswyr' fel y bo'n briodol, ac i godi ymwybyddiaeth gyda phartneriaid er mwyn deall manteision y Marc Ansawdd yn well
- Parhau i gefnogi ac annog y bartneriaeth rhwng CCGIG a grwpiau gwirfoddol lleol drwy hyrwyddo aelodaeth CCGIG i bartneriaid lleol
- Darparu cyfleoedd hyfforddi Gwaith Ieuencid
- Darparu gweithgareddau hyfforddi ar gyfer gweithwyr ieuencid a phartneriaid ynghylch digartrefedd ieuencid, iechyd meddwl/llesiant neu themâu eraill sy'n dod i'r amlwg.
- Cefnogi Gweithwyr Cymorth Ieuencid cofrestredig i gael mynediad at Gyrsiau Gwaith Ieuencid Israddedig/Ôl-raddedig ac yn eu blaen trwy'r panel cymwysterau corfforaethol.
- Cynnal a datblygu Swyddogaethau Cydlynedd Dilyniant Addysg a goruchwyliaeth strategol o'r FFYCHI
- Goruchwyllo prosesau broceriaeth a Statws Coch, Melyn a Gwyrdd (RAG), gan weithio'n agos gyda rheolwyr tîm a phartneriaid perthnasol
- Parhau a chyflwyno cyfarfodydd TADRHy tymhorol newydd gyda phob ysgol uwchradd, UCD a phartneriaid a pharhau i drefnu cyfarfodydd amlasiantaethol ôl-16 NMACH
- Datblygu system Canolfan Athrawon fewnol a PAG (Proffil Asesiad Bregusrwydd) er mwyn adnabod ac olrhain bregusrwydd a chynnydd plant a phobl ifanc yn well
- Datblygu llwybrau ar gyfer profiad gwaith, prentisiaethau/ hyfforddeiaethau mewn partneriaeth â Dysgu Gydol Oes a Sgiliau er mwyn sicrhau bod cefnogaeth i'r rhai nad ystyrir eu bod yn barod, i gael mynediad at gymorth a darpariaeth
- Datblygu'r cynllun peilot darpariaeth cymorth integredig i bobl ifanc a rhieni ymhellach drwy weithgareddau/darpariaeth reolaidd dan arweiniad ieuencid, gan weithio gyda sefydliadau'r sector gwirfoddol sydd yn y lle gorau i gynnal cefnogaeth
- Datblygu prosiectau cydweithredol ymhellach a llwybrau cymorth i bobl ifanc nad oes ganddynt fynediad i ACH oherwydd rhwystrau ar sail eu nodweddion gwarchoddedig
- Cyflwyno prosiectau a digwyddiadau hwyliog i'r teulu dan arweiniad ieuencid yn ystod gwyliau'r ysgol
- Cefnogi partneriaid yn y sector gwirfoddol i ymestyn gweithgareddau cynhwysol gyda'r nos ac ar benwythnosau sy'n hyrwyddo annibyniaeth, hyder, datblygiad personol a chymdeithasol pobl ifanc
- Gweithio gyda'r heddlu a grŵp TDThC (Trais difrifol a throseddau cyfundrefnol) i nodi a mapio aelwydydd yng Ngheredigion sydd dan fygythiad o fod yn ddigartref.
- Cefnogi rhaglenni cymorth LHDTTC+ dan arweiniad ieuencid yn unol ag anghenion pobl ifanc.
- Datblygu prosiectau cydweithredol yn y gymuned gyda phobl ifanc, eu teuluoedd a/neu sefydliadau i gefnogi'r rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig sy'n eu gwahardd yn addysgol a chymdeithasol,
- Darparu cymorth ataliol a dargyfeiriol i bobl ifanc o gymunedau sydd heb gynrychiolaeth dda a pharhau i ymgysylltu â'r rhai sydd wedi'u hadnabod fel rhai sydd mewn perygl o gael eu gwahardd gan darparu llwybrau cymorth ac ymyriadau er mwyn hyrwyddo canlyniad cadarnhaol i'r bobl ifanc.

## 8. Cynllunio Ymlaen

Bydd yr adran hon yn cael ei datblygu drwy gydol 2025

## 9. Atodiadau

Rhestr cynnwys i'w ddatblygu:

- Enghreifftiau o gynnydd / cynlluniau ymyrraeth
- Astudiaethau achos ymarfer da
- Templedi h.y. pellter a deithiwyd